# YR AELOD CABINET DROS GARTREFI A DIRPRWY ARWEINYDD

**DYDD** Iau, 27 Hydref 2022

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** L.D. Evans (Aelod o'r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
R. Phillips, Rheolwr Rhaglenni Ewropeaidd
J. Pritchard, Community Regeneration Officer
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod: 3.30 yp - 4.15 yp

**1. DATGANIADAU O FUDDIANAU PERSONOL.**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 5ED GORFFENNAF 2022**

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Gorffennaf 2022, gan ei fod yn gywir.**

**3. CRONFA CYMORTH AELWYDYDD**

Bu'r Aelod Cabinet dros Gartrefi a'r Dirprwy Arweinydd yn ystyried adroddiad yn manylu ar sefydlu Cronfa Gymorth i Aelwydydd, wedi'i hariannu'n llawn gan gymorth grant Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, i alluogi'r awdurdod i gefnogi'r nifer cynyddol o bobl sy'n wynebu tlodi bwyd. Byddai'r gronfa yn cefnogi strategaethau a chynlluniau presennol y Sir i gefnogi'r rheiny sy'n wynebu tlodi, gan gynnwys y Strategaeth Gorfforaethol ac Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin. Byddai'r gronfa hefyd yn cyd-fynd â 7 nod Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD**

**3.1 cymeradwyo'n ôl-weithredol y gwaith o ddarparu'r Gronfa Gymorth i Aelwydydd a weinyddir gan dîm Biwro y Cyngor yn yr is-adran Datblygu Economaidd;**

**3.2 cymeradwyo dirprwyaeth i'r Pennaeth Adfywio i ddyfarnu'r cyllid;**

**3.3 cymeradwyo dirprwyaeth i'r Pennaeth Adfywio, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gartrefi a'r Dirprwy Arweinydd, i drosglwyddo unrhyw danwariant i gronfa dlodi ehangach y Sir os bydd angen.**

**4. CRONFA TLODI**

Bu'r Aelod Cabinet dros Gartrefi a'r Dirprwy Arweinydd yn ystyried adroddiad yn manylu ar sefydlu Grant Trydydd Parti i gefnogi'r nifer cynyddol o bobl sy'n wynebu tlodi bwyd drwy ddarparu cymorth ariannol i alluogi sefydliadau lleol i fodloni anghenion lleol. Byddai'r grant yn agored i unrhyw fudiad â chyfansoddiad a oedd yn gofyn am gefnogaeth ar gyfer y rhai sy'n wynebu tlodi yn Sir Gaerfyrddin. Byddai'r grant, a fyddai'n cael ei ariannu'n llawn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, yn cefnogi strategaethau a

chynlluniau presennol y Sir i gefnogi'r rhai sy'n wynebu tlodi, gan gynnwys y Strategaeth Gorfforaethol ac Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD**

**4.1 cymeradwyo sefydlu Grant Trydydd Parti yn ôl-weithredol, a weinyddir gan dîm Biwro y Cyngor yn yr is-adran Datblygu Economaidd, i gefnogi'r rhai sy'n wynebu tlodi;**

**4.2 cymeradwyo dirprwyaeth i'r Pennaeth Adfywio i ddyfarnu cyllid o hyd at uchafswm o £10k fesul ymgeisydd.**

______________________________ ____________________

**AELOD O'R CABINET** **DYDDIAD**